# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2019

Amser: 09.17 - 10.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5072

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Ross Davies (Dirprwy Glerc)<br>Sam Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-855 Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am i'r deisebwyr ymateb i'r ohebiaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynghylch y ddeiseb.

## 2.2 P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn gofyn iddi ddarparu amserlenni dangosol ar gyfer dod i benderfyniad ar y mater hwn yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhelir cyn hir, ac o ran datblygu unrhyw waith dilynol megis cyflwyno deddfwriaeth; ac
- aros am ganlyniad yr ymgynghoriad cyn ystyried pa gamau pellach y gall fod eu hangen o ran y ddeiseb, gan gynnwys dadl yn y Cyfarfod Llawn.

## 2.3 P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu ag ef y sylwadau ychwanegol a gafwyd gan y deisebwyr a gofyn am ei ymateb, yn enwedig mewn perthynas â'r sylwadau a'r cynigion a wnaed mewn perthynas â rôl Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion;
- ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w hysbysu am y ddeiseb yng nghyd-destun eu gwaith parhaus ar y pwnc hwn yn dilyn yr adroddiad Cadernid Meddwl, a gofyn am unrhyw sylwadau sydd gan y Pwyllgor mewn perthynas â rôl a chwmpas Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion; a
- gofyn am bapur ymchwil ar y gofynion presennol mewn perthynas â chynlluniau iechyd meddwl ar gyfer plant ac effeithiolrwydd y cynlluniau hynny.

### 2.4 P-05-860 Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu llythyr at y Gweinidog Addysg ynglŷn â'r ddeiseb hon a P-05-861 yn gofyn a yw'n bosibl dechrau gweithredu gwelliannau i'r ffordd y dysgir sgiliau bywyd i ddisgyblion mewn ysgolion cyn i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu yn llawn yn 2022, a gofyn sut, yng nghyd-destun rhoi hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol, y mae'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau bod disgyblion yn cael hyfforddiant digonol o ran sgiliau bywyd yn ystod eu haddysg; ac
- aros am i'r deisebwyr ymateb i'r ohebiaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 2.5 P-05-861 Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at y Gweinidog Addysg ynglŷn â'r ddeiseb hon a P-05-860 yn gofyn iddi ystyried gweithredu cyflymach i sicrhau bod gwelliannau i'r addysg wleidyddol a ddarperir mewn ysgolion ar waith cyn y gweithredir y cynnig i roi hawl i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiad y Cynulliad yn 2021.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chytunodd i gadw golwg ar y mater hwn tan y bydd y gwaith asesu stoc ar ben cyn ystyried unrhyw gamau pellach.

### 3.2 P-05-815 Rheoli'r Diwydiant Dofednod Dwys sy'n Ehangu'n Gyflym yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu yn ôl at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i ofyn am:

    - fanylion pellach am y gwaith a wneir ynghylch effaith gronnus datblygiadau newydd ar gynefinoedd sensitif yn ystod 2019;
    - gwybodaeth am y rhanddeiliaid a fydd yn cymryd rhan yn hyn; ac
    - ymateb i'r cais i'r deisebwyr gael eu gwahodd i gymryd rhan yn y gwaith hwn.
- ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn ei hysbysu am y ddeiseb a'r dystiolaeth a gafwyd hyd yma gan fod y Pwyllgor hwnnw yn cynnal ymchwiliad i Fioamrywiaeth;
- rhannu dadansoddiad y deisebwyr a safbwyntiau Cyfoeth Naturiol Cymru fel y'u mynegwyd yn eu gohebiaeth flaenorol ag aelodau'r pwyllgor.

**3.3 P-05-837 Ynni Gwyrdd er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd yn gofyn iddo ystyried defnyddio'r cyllid a fyddai wedi mynd i Wylfa Newydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ymhellach gynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

**3.4 P-05-839 Dylid troi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ynghylch llygredd aer yn gyfraith yng Nghymru a chyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- rhannu sylwadau diweddaraf y deisebwyr â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yng nghyd-destun eu cynnig i gefnogi gwaith yn y maes hwn; a

- aros am i ddrafft o Gynllun Aer Glân i Gymru gael ei gyhoeddi ac ystyried a oes a all y Pwyllgor wneud rhagor ar y pwynt hwnnw.

### 3.5 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a chan Gomisiwn y Gymraeg a chytunodd i ysgrifennu at Gymwysterau Cymru a'r Gweinidog Addysg i rannu'r dadansoddiad a'r wybodaeth a gafwyd gan Gomisiwn y Gymraeg, a gofyn iddynt ymateb i'r atebion penodol a gynigiwyd.

### 3.6 P-05-793 Band eang cyflym i bentref Llangenni

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Arweinydd y Tŷ fel yr oedd ar y pryd a chytunodd i ysgrifennu at Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, yn dilyn ei ddatganiad dyddiedig 18 Ionawr, a gofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch y ddarpariaeth yn Llangenni pan fydd modd iddo wneud hynny ac, os bydd y pentref yn cael ei gwmpasu gan y rhaglen, i ddarparu amserlen ddangosol ar gyfer ei gysylltu â band eang cyflym.

### 3.7 P-05-824 Ffordd Osgoi Derwen Brimmon y Drenewydd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth a chytunodd i gau'r ddeiseb yng ngoleuni penderfyniadau terfynol Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys i wrthod y cynnig.

### 3.8 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Vertex a'r Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddo ystyried a oes ffordd briodol o sicrhau bod cleifion a fyddai’n elwa arno yn cael

mynediad dros dro at Orkambi, o gofio bod trafodaethau wedi ailddechrau ynghylch argaeledd tymor hir y feddyginiaeth gan y GIG.

### 3.9 P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r deisebwyr a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu yn ôl at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ymateb i'r dystiolaeth ddiweddaraf, yn arbennig galwad y Comisiynydd am i ddyletswyddau newydd gael eu rhoi ar gyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn dilyn gofynion CCUHP wrth wneud penderfyniadau ac wrth gomisiynu gwasanaethau, a gofyn a fydd y Gweinidog yn ysgrifennu at gyrff cyhoeddus i'w hatgoffa bod disgwyliad iddynt ddilyn y canllawiau presennol; a
- gofyn am bapur cyfreithiol pellach mewn perthynas ag a ellid cryfhau gofynion deddfwriaethol yn y maes hwn a'u hehangu i gynnwys pob corff cyhoeddus.

### 3.10 P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Arweinydd y Tŷ fel yr oedd ar y pryd a chan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i groesawu'r ffaith bod camau y cyfeiriodd y Gweinidog blaenorol atynt yn cael eu hystyried, yn enwedig o ran gweithredu cynllun peilot, a bydd yn gofyn am ddiweddariad am yr amserlenni ar gyfer ystyriaeth neu waith pellach yn y maes hwn, gan fod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol bellach wedi'i gwblhau.

### 3.11 P-05-843 Mwy o hawliau trydydd parti mewn apeliadau cynllunio

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r deisebydd, a chyn ystyried pa gamau pellach y gallai eu cymryd, cytunodd y bydd yn derbyn cynnig y deisebydd i ddarparu adroddiad pellach ar y rheswm y mae angen i'r gyfraith newid yn y maes hwn.